## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 27 Mehefin 2001 |
| **Amser:** | 2.00 i 4.30 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000

## MAPIO TIROEDD AGORED – RHEOLIADAU DRAFFT

### Cyflwyniad

1. Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) yn darparu hawl

   statudol newydd ar gyfer mynediad ar droed i gefn gwlad agored (a ddiffinnir fel tir mynydd, rhostir, gweundir a downdiroedd) a thir comin cofrestredig. Mae angen llawer o waith paratoi cyn y gall yr hawl newydd ddod i rym yng Nghymru - gan gynnwys canllawiau ar gyfer tirfeddianwyr a cherddwyr ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, sefydlu fforymau mynediad lleol, a chyfres o reoliadau ategol. Yn amodol ar gwblhau'r gwaith paratoi'n llwyddiannus, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn anelu at gyflwyno'r hawl mynediad newydd ledled Cymru erbyn 2005. Mae'r papur ymgynghorol hwn yn ymwneud ag un agwedd o'r gwaith paratoi - sef diwyg y mapiau drafft ar gyfer cefn gwlad agored a thir comin a'r dulliau ymgynghori sydd ynghlwm wrth hynny.

   **Paratoi Mapiau**

2. Mae Adran 4 o Ddeddf CROW yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Cefn Gwlad

   Cymru (CCW) lunio ac ymgynghori ar fapiau drafft o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig. Rhaid i'r CCW hefyd ystyried unrhyw sylwadau a ddaeth i law ar gywirdeb y mapiau drafft (hynny yw a yw'r tir wedi ei ddisgrifio'n gywir fel cefn gwlad agored neu dir comin). Unwaith y cwblheir hyn, bydd y mapiau drafft yn cael eu cyhoeddi, gydag unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, ar ffurf dros dro. Mae yna ddau gam arall cyn y ceir y mapiau ar eu ffurf derfynol.

I gychwyn, fe all y rhai hynny sydd â budd uniongyrchol yn y tir sef y tirfeddiannwr, tenant neu unrhyw un sydd â hawliau saethu neu debyg ar y tir apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan rai amgylchiadau (rhagnodir yn adran 6 o'r Ddeddf). Yn ail, ar ôl penderfynu ar apeliadau, cyhoeddir y mapiau, gydag unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, ar eu ffurf derfynol. Mae gwaith paratoi'r mapiau drafft, a'r rheoliadau sydd ynghlwm wrth hynny, felly yn gam cyntaf hanfodol yn y broses fapio. (Trefnir ymarfer ymgynghori ar wahân yn hwyrach yn y flwyddyn ar y gofynion rheoliadol ar gyfer paratoi mapiau dros dro a mapiau terfynol a'r broses apelio sydd ynghlwm wrth hynny).

**Amserlen gychwynnol**

3. Mae CCW eisoes yn ymgymryd â gwaith paratoi er mwyn helpu i lunio

mapiau drafft ar gyfer Cymru gyfan drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r arolwg cynefinoedd i nodi tir mynydd, rhostir, gweundir a downdiroedd. Mae gwybodaeth am dir comin yn cael ei lunio o'r data a geir ar gofrestrau tir comin statudol a gedwir gan awdurdodau lleol Cymru. Mae CCW yn anelu at gwblhau fersiynau dros dro o'r mapiau ar gyfer Cymru gyfan erbyn Ebrill 2002 a chychwyn ar yr ymgynghori fesul ardal cyn gynted â phosibl yn 2002.

**Materion i ymgynghori yn eu cylch**

4. Mae Adran 11 o'r Ddeddf yn caniatáu creu rheoliadau i ddiffinio diwyg y map a'r gwaith ymgynghori sydd ynghlwm wrth hynny. Yn unol ag adran 11, mae'r papur hwn yn ceisio safbwyntiau ar y materion allweddol canlynol:-

a. **Graddfa'r Mapiau.** Mae CCW yn paratoi'r mapiau drafft ar gronfa ddata

mapio electronig. Seiliwyd hwn ar fap sylfaenol 'land-line' electronig yr Arolwg Ordnans sy'n cynnwys graddfeydd gwahanol sy'n ddibynnol ar y math o dir sydd ar y map. Mae CCW yn medru paratoi mapiau drafft i'r un graddfeydd a welir ym map sylfaenol yr Arolwg Ordnans. Er mwyn sicrhau eglurder digonol cynigiwyd bod y rheoliadau yn pennu bod y mapiau drafft, dros dro a therfynol, yn cael eu paratoi ar raddfa 1:10,000 man lleiaf. Bydd y raddfa isaf hon yn sicrhau bod cefn gwlad agored yn cael ei ddangos yn ddigon manwl er mwyn rhoi eglurder ynghylch hawliau tramwyo cyhoeddus. Mae paragraff 3 uchod yn egluro'r prif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y mapiau, ond ni ystyrir ei bod yn briodol pennu hyn yn y rheoliadau fel er mwyn peidio â chyfyngu ar allu CCW i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath fel y dymunant.

b. **Ardaloedd i'w Cynnwys.** Mae CCW yn bwriadu defnyddio ffiniau awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol gymaint â phosib wrth baratoi mapiau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Byddai'n ddymunol gweld peth hyblygrwydd yn y ffiniau a ddefnyddir ar gyfer y mapiau - er enghraifft rhag ofn y penderfynir cyflwyno hawliau tramwyo newydd fesul ardal. **Cynigir** nad yw'r rheoliadau'n pennu'r ardal i'w chynnwys yn y mapiau, y tu hwnt i'w gwneud hi'n ofynnol bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud ar gyfer Cymru gyfan.

c. **Symbolau ar Fapiau.** Un o'r materion sydd i'w ystyried yw a ddylai'r rheoliadau bennu'r ffurf y mae cefn gwlad agored a thir comin yn cael eu dangos ar fapiau, hynny yw pa symbolau i'w defnyddio. Er mwyn sicrhau rhwyddineb i ddefnyddwyr mae'n bwysig bod cysondeb yn y symbolau a ddefnyddir rhwng mapiau Cymru a'r rhai sy'n cael eu cwblhau ar gyfer Lloegr gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad. Mae ymgynghori clos ar y gweill rhwng CCW a'r Asiantaeth Cefn Gwlad i sicrhau hyn. Yn yr amgylchiadau hyn **cynigir** nad oes angen i'r rheoliadau bennu'r symbolau sydd i'w defnyddio, ond I ymofyn a symbolau unffurf I'r holl mapiau sy'n cael eu cwbwlhau gan CCW.

d. **Cyhoeddi'r Mapiau.** Fel y nodwyd uchod, mae CCW yn paratoi i gadw'r

gwybodaeth fapio ar ffurf electronig (i helpu gyda'r gwaith diweddaru ac yn y blaen). Er mwyn sicrhau hawl y cyhoedd i weld yr wybodaeth hon a'r broses ymgynghori sydd ynghlwm wrtho, **cynigir** bod y rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i CCW baratoi mapiau drafft ar ffurf electronig. Mae'r Ddeddf eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol bod modd argraffu mapiau sydd ar ffurf electronig mewn print er mwyn hwyluso'r broses ymgynghori cyhoeddus. Felly **cynigir hefyd** y dylid argraffu'r mapiau printiedig ar raddfa nad yw'n llai na 1:25,000 at ddibenion ymgynghori ac fe ddylai hyn ddarparu digon o fanylder ar gyfer pob pwrpas. Serch hynny, bydd ffurf electronig ar gael ar gyfer archwiliad gan y cyhoedd (gweler 4. e isod) a dyna fyddai fersiwn swyddogol y map.

e. **Adneuo ac Archwilio Mapiau.** Bydd angen cyhoeddi'r mapiau drafft a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer eu harchwilio gan y bobl sy'n dymuno'u gweld a phenderfynu a ydynt yn dymuno gwneud sylwadau. **Cynigir** y dylai CCW gynhyrchu copïau printiedig o'r mapiau ar raddfa heb fod yn llai na 1:25,000 at y dibenion canlynol :

i. i'w dosbarthu i'r cyrff yr ymgynghorir â hwy ac a restrir ym mharagraff 4 isod
ii. eu hanfon at rai sydd â budd yn y tir (perchen-feddianwyr, porwyr, ac yn y blaen)
iii. i'w hadneuo gyda CCW a swyddfeydd yr awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol

perthnasol.

Gan fydd rhai pobl yn dymuno archwilio'r fersiynau electronig o'r mapiau (sydd â mwy o fanylder), **cynigir hefyd** bod CCW yn sicrhau bod y fersiynau print ac electronig o'r mapiau drafft ar gael i'w harchwilio yn ystod y cyfnod ymgynghori yn eu prif swyddfa a'r swyddfa leol briodol.

f. **Ymgynghori â Phartïon sydd â Budd.** Mae'r Ddeddf yn caniatáu ymgynghori â chyrff rhagnodedig penodol am y mapiau drafft. Y bwriad yw i CCW anfon yr wybodaeth ganlynol at bob un o'r sefydliadau: copi o'r hysbysiad i'w gyhoeddi o dan baragraff 4g isod; copi o'r map drafft ar gyfer yr ardal o dan sylw ar raddfa heb fod yn llai na 1:25,000; a datganiad yn egluro bod cyfle gan y sefydliad i roi sylwadau ar y map drafft, gan gynnwys ei archwilio ar ei ffurf electronig. Dylid pennu cyfnod o ddeuddeg wythnos er mwyn gwneud sylwadau. **Cynigir** dylai'r sefydliadau rhagnodedig gynnwys y canlynol:

i. Cynghorau unedol a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru
ii. Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
iii. Fforymau mynediad lleol, os ydynt yn bodoli
iv. Cadw
v. Y Weinyddiaeth Amddiffyn
vi. Y Comisiwn Coedwigaeth
vii. Y grwpiau defnyddwyr canlynol - Cymdeithas y Cerddwyr, Cymdeithas Mannau Agored a Chyngor Mynydda Prydain.
viii. Y buddiannau ffermio/tir-feddiannol canlynol - *The Country Land and Business Association*, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, a Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig.

g. **Hysbysu'r Cyhoedd.** Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a buddiannau eraill na enwyd yn 4f yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y mapiau drafft os ydynt yn dymuno, **cynigir** bod y rheoliadau yn pennu bod hysbysiad ynghylch y mapiau drafft yn cael ei gyhoeddi yn o leiaf un papur newydd yn yr ardal sydd o dan sylw yn y map. Os nad oes papur lleol, yna dylai CCW gyhoeddi hysbysiad yn y papur rhanbarthol/lleol priodol. **Cynigir** y dylai'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol: dyddiad cyhoeddi'r map a phwrpas yr ymgynghori; lle y gellir mynd i weld y mapiau; sut i gael copïau o'r map a lle y dylid anfon sylwadau, gan gynnwys y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Mae CCW hefyd yn bwriadu darparu copïau o'r mapiau (neu rannau perthnasol ohono) ar gais perchnogion, deiliaid, ac eraill sydd â budd cyfreithiol yn y tir o dan sylw. **Cynigir,** er mwyn sicrhau eglurder, y dylid cynnwys hyn yn benodol yn y rheoliadau gyda'r ddarpariaeth bod y rheini sydd â budd yn darparu gwybodaeth sylfaenol i brofi hyn (mae 4h isod yn cyfeirio at

hyn). **Cynigir** hefyd y gall CCW godi tâl am ail gopïau o fapiau a ddanfonir at y buddiannau hyn.

h. **Sylwadau.** I ganiatáu digon o amser i'r rhai sydd â budd yn y tir agored a'r tir comin a ddangosir ar y mapiau drafft ystyried rhoi sylwadau, **cynigir** y dylai'r rheoliadau bennu cyfnod ymgynghori o ryw ddeuddeg wythnos o leiaf. Byddai hwn yn cychwyn o'r dyddiad y cyhoeddwyd copi drafft o'r map at ddibenion ymgynghori. **Cynigir hefyd** y dylid anfon yr holl sylwadau yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a dylent gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

i. Enw a chyfeiriad y person sy'n rhoi'r sylw.
ii. Manylion y tir * y mae'r sylwadau'n ymwneud â hwy a buddiannau'r person yn y tir.(*Yn ddelfrydol byddai'r wybodaeth a ddefnyddir I ddiffino'r ardal o dir o dan sylw yn cynnwys map, neu gyfeirnod grid perthnasol neu manylion adnabod eraill).
iii. Natur y sylwadau, gan gynnwys a yw'r person sy'n gwneud y sylwadau o'r farn y dylai'r tir ymddangos fel cefn gwlad agored neu dir comin ai peidio.

i. **Cywiro Camgymeriadau Bach/Hepgoriadau. Cynigir** bod CCW yn cael yr hawl i gywiro unrhyw gamgymeriadau bach neu hepgoriadau sy'n dod i'r amlwg yn y copi drafft o'r map cyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori fel map dros dro.

**Rheoliadau Drafft**

5. Amgaeir drafft cyntaf y rheoliadau. Mae'r drafft yn cymryd y bydd yr holl gynigion a wnaed yn y papur hwn yn cael eu derbyn - er nad oes rheidrwydd y bydd hyn yn digwydd, ond gobeithir y bydd y rheoliadau drafft o gymorth i'r broses ymgynghori. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar ffurf a chynnwys y rheoliadau drafft yn ogystal ag ar y cynigion ym mharagraff 4 uchod.

6. Dylid anfon safbwyntiau am y materion a drafodwyd yn y papur ymgynghori hwn at Angharad Huws yn Is-Adran Gefn Gwlad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn …. Awst 2001. Os byddwch yn dymuno trafod unrhyw fater a drafodwyd yn y papur hwn cyn cyflwyno'ch safbwyntiau yna cysylltwch â Gerry Quarrell neu ag Angharad Huws yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 029 20 823557 a 029 20 825168.

Mehefin 2001 Yr Is-Adran Cefn Gwlad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru